**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mehefin 2014**

## Y CYNLLUN AR Y CYD I LEIHAU RISG A GWELLA 2015-16

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am waith Gweithgor y Cynllun Gwella, a chyflwyno argymhellion y Panel Gweithredol, 12 Mai 2014, ynglŷn ag Amcanion Gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2015-16 a'r tu hwnt.

## Cefndir

2 Dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r Awdurdodau Gwella Cymreig, wneud y canlynol:

- Penderfynu ar ei amcanion gwella ei hun dan unrhyw un o saith elfen sydd wedi eu diffinio ar gyfer gwella. Er bod gofyn iddo osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn.

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion am gyfnod o amser. Nid oes amser penodol ar gyfer ymgynghoriadau, ond rhyw 12 wythnos y maent yn ei bara fel arfer. Rhaid i'r ymgynghoriadau gael dyddiad cychwyn a dyddiad cau pendant.

3 Er mwyn datblygu amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2015-16, mae Gweithgor y Cynllun Gwella wedi cynnal tri chyfarfod, sef ar 24 Chwefror, 31 Mawrth a 12 Mai 2014, ac mae'r Aelodau wedi cael gwybod beth yw'r datblygiadau drwy adroddiad llafar i gyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd hefyd ar 12 Mai 2014.

**Gwybodaeth**

4 Yn y cyfarfod cyntaf, cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod yr Awdurdod newydd gyrraedd diwedd strategaeth ariannol dair blynedd a oedd wedi rhewi'r gyllideb refeniw ar £32 miliwn ers 2011-12. Er mwyn ariannu chwyddiant, talu dyfarniadau a chost cyfalaf yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau £2.4 miliwn o arbedion drwy newid arferion gweithio a gostwng nifer y swyddi diogelwch cymunedol. Gwnaethpwyd hyn drwy gydweithio'n agos â'r cyrff cynrychioliadol yn lleol, a heb angen gwneud unrhyw ddiswyddiadau gorfodol. Wrth weithredu'r newidiadau hyn, mae'r swyddogion wedi talu sylw i'r ddau faen prawf arall a osodwyd gan yr Awdurdod, sef yr angen i gefnogi'r rhaglen gyfalaf, a'r angen i gynnal y gofal tân ymhob rhan o Ogledd Cymru.

5 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Rhagfyr 2013, cytunodd yr Aelodau i barhau gyda'r strategaeth i rewi'r gyllideb am bedwaredd flwyddyn. Y canlyniad oedd bod y gyllideb ar gyfer 2014-15 angen £400k i'w thanategu, a chlustnodwyd hynny o'r cronfeydd wrth gefn, ond byddai angen dod o hyd i'r swm hwnnw yn y blynyddoedd i ddod.

6 Cafodd Gweithgor y Cynllun Gwella gyflwyniadau ar y bwlch cyllido sy'n debygol o ddod o ganlyniad i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau oherwydd pwysau demograffig a chymdeithasol, a'r gostyngiad sylweddol a ddisgwylir yn yr arian a fydd ar gael i wasanaethau heblaw am addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

7 Yn ôl y cyfrifiadau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, byddai angen i'r gyllideb refeniw gynyddu £3 miliwn rhwng 2014-15 a 2019-20 er mwyn cadw'r un lefel o wasanaeth â'r presennol. Mae hyn yn rhagdybio dyfarniadau cyflog bychain o 1% y flwyddyn a pharhau gyda grantiau uniongyrchol i ariannu diogelwch cymunedol.

8 Atgoffwyd yr Aelodau ei fod wedi cyhoeddi strategaeth ariannol ar gyfer 2014-15 i 2016-17 yn ei Gynllun ar y Cyd i Leihau Risg a Gwella, a byddai honno'n cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y gyllideb refeniw flynyddol i uchafswm sy'n cyfateb i £1 y pen o'r boblogaeth. Nid ychwanegwyd y cynnydd hwn yn 2014-15, felly'r swm mwyaf y gellid ei godi yn nwy flynedd olaf y strategaeth fyddai £1.38 miliwn. Mae hyn yn rhagdybio poblogaeth o 690,000 o bobl, a phob un yn talu £1 yn ychwanegol y flwyddyn am ddwy flynedd, sef 2015-16 a 2016-17.

9 Ar ôl rhoi pob newid mawr posibl ar waith i gadw cyllideb wedi ei rhewi am bedair blynedd (gostyngiad o 10% mewn termau real), cydnabuwyd y byddai unrhyw arbedion pellach yn gorfod dod drwy leihau gwasanaethau rheng flaen. Dangoswyd effaith penderfyniad yr Awdurdod i beidio â gael y cynnydd angenrheidiol o £3 miliwn yn y gyllideb refeniw drwy dair senario realistig a allai wireddu'r arbedion hynny: sef cael gwared ar yr ail injan dân o Wrecsam (28 o swyddi diffoddwyr tân y system dyletswydd amser cyflawn) a'r ail injan dân o Lannau Dyfrdwy, y Rhyl, Bae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi (100 o ddiffoddwyr tân y system RDS) a chau 9 gorsaf dân wledig (100 yn rhagor o ddiffoddwyr tân y system RDS). Yn gryno, byddai parhau i rewi'r gyllideb tan ddiwedd y degawd yn gofyn am ostyngiadau mawr er mwyn cau 9 o'r 44 gorsaf dân bresennol, cael gwared ar 17 o'r 54 injan dân bresennol, a cholli tua 228 o'r 799 o swyddi diffoddwyr tân gweithredol.

10 Mae aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella wedi edrych yn eang ar y goblygiadau gweithredol a chyfreithiol o wneud newidiadau i lefel y gwasanaeth a ddarperir. Roeddent yn cydnabod bod canlyniadau mawr i'r penderfyniad sydd nawr yn wynebu'r Awdurdod, ac yn cytuno fod angen ymgynghori'n eang gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r mater.

11 Cefnogwyd hyn gan Aelodau'r Panel Gweithredol, a ddywedodd nad oeddent yn dymuno gweld y gostyngiad anghymesur hwn yn y Gwasanaeth. Roedd yr Aelodau'n cofio am benderfyniad presennol yr ATA o fewn y Cynllun Gwella cyfredol, sy'n datgan bod yr Awdurdod yn bwriadu cynyddu'r gyllideb flynyddol dim ond ddigon i gadw lefel gyfredol y gwasanaeth, gan ddiogelu na ddylai lefel y cynnydd blynyddol gyfateb i swm sy'n fwy na £1 yn ychwanegol y pen y flwyddyn yng Ngogledd Cymru.

12 Teimlai'r Aelodau mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r cyfyngiadau ariannol a'r risgiau gweithredol sy'n wynebu'r Awdurdod. Hefyd, teimlai'r Aelodau ei bod yn hollbwysig i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig hwn fod yn un eang a chadarn.

**Argymhellion**

13 Argymhellir:

(i) y dylai'r Amcan Gwella drafft olygu cadw lefel bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru, ac felly gael cynnydd yn y gyllideb. Fodd bynnag, dylai'r amddiffyniad, sef na ddylai lefel y cynnydd blynyddol gyfateb i ddim mwy na £1 yn ychwanegol y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, barhau ac ymestyn o 2016-17 i 2019-20;

(ii) y dylid ymgynghori'n eang a chadarn ynghylch hyn er mwyn penderfynu ar y strategaeth 5 mlynedd hon erbyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr.